**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
—
**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Simon Jones
Cadeirydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Helen Thomas
Prif Weithredwr, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

5 Rhagfyr 2022

Annwyl Simon a Helen

Cwestiynau dilynol ar ôl y sesiwn graffu gyffredinol ar 26 Hydref 2022

Diolch am ddod i'n cyfarfod ddydd Mercher 26 Hydref 2022 ac am ymateb i'n cwestiynau.

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu atoch gyda chwestiynau dilynol ynghylch y materion a amlinellir yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Gan y byddwn yn dychwelyd at y materion hyn y tymor nesaf, byddem yn croesawu ymateb gennych erbyn 13 Ionawr 2023.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad: cwestiynau dilynol ar ôl y sesiwn graffu gyffredinol ar 26 Hydref 2022

Yn dilyn y sesiwn graffu gyffredinol gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar 26 Hydref 2022, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am y materion a restrir isod. Byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Gwener 13 Ionawr 2023.

### Trosglwyddo i'r cwmwl

1. Yn y sesiwn, dywedodd Helen Thomas, Prif Weithredwr Iechyd a Gofal Digidol Cymru, fod Iechyd a Gofal a Digidol Cymru wedi symud 25 y cant o'i ystâd i'r cwmwl. Gwnaethoch gytuno i ysgrifennu at y pwyllgorau gyda ffigyrau ar y gostyngiad o ganlyniad i hynny yn nifer a chanran y gweinyddion sy'n cael eu defnyddio yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

### Y cynnydd a wnaed ar argymhellion adroddiadau Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd

2. Gwnaethoch gytuno i ddarparu rhagor o fanylion am waith yn ymwneud â System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Yn benodol, byddai'r pwyllgorau yn croesawu gwybodaeth am y canlynol:

    a. Trosolwg o'r niferoedd sy'n defnyddio System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar hyn o bryd ar draws byrddau iechyd ac awdurdodau lleol.

    b. Y rhesymau pam nad yw unrhyw fyrddau iechyd neu awdurdodau lleol wedi cofrestru ar gyfer System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, ac yn dewis defnyddio systemau gwahanol.

    c. A yw'r systemau gwahanol hynny yn gallu rhyngweithredu â System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.

    d. Mae sefydliadau sy'n defnyddio'r system ar hyn o bryd wedi symud ati ar adegau gwahanol, sy'n golygu y bydd eu gorchmynion defnyddio hefyd yn dod i ben ar adegau gwahanol. A oes gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru broffil o'r amserlenni ar gyfer y cerrig milltir cytundebol hyn.

    e. A oes proses ac amserlen ar gyfer penderfyniadau ar strategaeth gontractio yn y dyfodol, gan gynnwys a ddylid cadw'r ymrwymiad i ddatrysiad system sengl neu ganiatáu ar gyfer patrwm o systemau rhyngweithredol gwahanol yn y dyfodol.

    f. Mae £12 miliwn ychwanegol wedi'i ymrwymo i System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru dros y tair blynedd nesaf. Sut fydd hyn yn cael ei ddyrannu

a'i wario (yn ôl prosiect ac ardal bwrdd iechyd)? Beth yw'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r prosiect a'r amcanion o ran gwireddu buddiannau o'r system.

g. Unrhyw risgiau allweddol eraill sy'n weddill ynghylch rhaglen System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru a sut mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn mynd i'r afael â'r risgiau hynny.

## Blaenoriaethu a'r gallu i reoli rhaglen waith Iechyd a Gofal Digidol Cymru gan gynnwys problemau'r gweithlu

3. Yn y sesiwn, fe wnaethoch drafod yr heriau roedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn eu hwynebu gyda swyddi gwag. Gwnaethoch adrodd bod gennych gynllun ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn a gwnaethoch gytuno i rannu'r cynllun hwnnw â'r pwyllgorau.

4. Nifer gyffredinol y staff yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (nifer y bobl a nifer y staff cyfwerth ag amser llawn), y nifer sy'n gweithio ar seiberddiogelwch, sicrwydd ynghylch a yw'r arbenigedd cywir ar waith, a sut mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio gyda chyrff eraill GIG Cymru i fynd i'r afael â materion seiberddiogelwch.

5. Yn eich tystiolaeth lafar gwnaethoch nodi nad oedd llawer o fenywod o fewn eich sefydliad a gwnaethoch gytuno i anfon rhywfaint o ddata at y pwyllgorau ynghylch perfformiad ar amrywiaeth y gweithlu.

## Trawsnewid gwasanaethau

Gwnaethoch nodi yn y sesiwn:

> "digital technology is moving from a capital intensive to a revenue-based funding model, particularly as you move from a data centre into the cloud. And that will mean, from an operational perspective, that our funding requirements will change and migrate".

Fodd bynnag, gwnaethoch gydnabod hefyd y bydd gweddnewid a rhyngweithredu systemau yn y dyfodol yn gofyn am fuddsoddiad i sicrhau bod gan fyrddau iechyd a gofal sylfaenol y caledwedd a'r systemau diweddaraf.

6. Beth yw barn Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar ofynion cyllid cyfalaf yn y dyfodol ar gyfer cyflawni gweddnewidiad digidol ym maes gofal iechyd yng Nghymru.

7. Sut mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn sicrhau bod pobl eraill o fewn GIG Cymru yn gallu defnyddio'r feddalwedd rydych chi'n ei datblygu.

## Gofal cymdeithasol

8. Mae ffocws Iechyd a Gofal Digidol Cymru hyd yma wedi bod ar ofal iechyd yn bennaf oll. Beth yw'r cynlluniau ar gyfer unrhyw ehangu o ran gwaith i ofal cymdeithasol.

## Diogelu data a mynediad i gleifion

9. Ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Iechyd a Gofal Gwybodus - Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol i Gymru yn 2015, bu nod strategol i sicrhau bod cofnodion meddygol a data cleifion ar gael iddynt. Mae gwledydd eraill wedi caniatáu i gleifion gael mynediad electronig uniongyrchol i'w cofnodion. Pa gynlluniau sydd gan Gymru i fwrw ymlaen â gwaith ar hyn.

10. Yn y sesiwn gofynnodd y pwyllgorau a oedd unrhyw brosesau gwneud penderfyniadau gan beiriannau yn digwydd mewn perthynas â data cleifion. Gwnaethoch gytuno i roi manylion am yr hyn oedd ar waith ar hyn o bryd. Roedd gan y Pwyllgorau ddiddordeb yn arbennig o ran y canlynol:

    a. Defnyddio algorithmau, categoreiddio, a dadansoddeg ragfynegol;

    b. Os felly, pa setiau data sy'n cael eu defnyddio ynddynt a sut mae categorïau'n cael eu pennu;

    c. Manylion y rheolwyr data, y proseswyr data ac unrhyw archwiliadau a gynhaliwyd yn y meysydd hynny;

    d. A oes unrhyw setiau data yn ffynhonnell agored ar hyn o bryd neu y bwriedir iddynt gael eu gwneud yn ffynhonnell agored.

11. Pa asesiad y mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi'i wneud o unrhyw newidiadau i Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a sut y gallai hyn effeithio ar gasglu, diogelu a rhannu data GIG Cymru.

12. Yn y sesiwn dystiolaeth gwnaethoch dynnu sylw at yr angen i wella data trawsffiniol a rhyngweithredededd systemau rhwng gwasanaethau'r GIG yng Nghymru a Lloegr gan nodi bod gwaith ar y gweill ar y mater hwn. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgorau am y cynnydd yn y maes hwn.

## Systemau gwybodaeth canser

13. Yn y sesiwn, fe wnaethoch nodi y byddai Cam 1 y system newydd ar gyfer CaNISC yn mynd yn fyw ym mis Tachwedd. Fe wnaethoch hefyd nodi bod Camau 2 a 3 yn gymhleth, y byddai angen cynllunio manwl arnynt, ac y gallent gymryd hyd at ddwy flynedd i'w rhoi ar waith. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o wybodaeth am y canlynol:

a. Yr amserlenni gwreiddiol ar gyfer disodli CaNISC, ac unrhyw resymau dros lithriad yn erbyn y rheini.

b. Yr amserlen bresennol ar gyfer datgomisiynu CaNISC a'i disodli gyda system/au amgen.

c. P'un a ydych ar y trywydd iawn i gyflawni'r amserlen bresennol, ac a yw'r gwaith o ddatgomisiynu gweithgarwch erbyn mis Tachwedd a grybwyllwyd yn y sesiwn dystiolaeth wedi digwydd.

## Dangosyddion perfformiad allweddol a meincnodi

14. Yn y sesiwn dystiolaeth fe wnaethoch nodi eich bod yn defnyddio eich dangosyddion perfformiad allweddol i feincnodi eich perfformiad yn erbyn sefydliadau eraill. A allech roi rhagor o wybodaeth am y gwaith meincnodi hwn yr ydych yn cyfeirio ato, gan nodi sut mae eich perfformiad yn cymharu â rhannau eraill o’r DU ac yn ehangach.

## Data iechyd carchardai

15. Clywodd ymchwiliad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd i’r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn yr ystâd carchardai i oedolion yng Nghymru dystiolaeth ynghylch cyfyngiadau’r seilwaith TG a ddefnyddir mewn gofal iechyd carchardai. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dweud bod Llywodraeth Cymru yn asesu'r adnoddau sydd eu hangen i wella mynediad at gofnodion meddygol carcharorion, er bod gan hyn oblygiadau o ran seilwaith TG a blaenoriaethau buddsoddi. A yw Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi bod yn rhan o unrhyw waith neu drafodaethau ynghylch y mater hwn?